

# Ffyngau glaswelltir

# Beth yw ffyngau?

- Maent ganddynt eu teyrnas eu hunain
- Maent i'w cael mewn pob siâp a maint
- Maent yn cynnwys burumau, llwydni a madarch
- Mae gan ffyngau waliau celloedd sy'n cynnwys citin (sef yr un stwff â sgerbydau allanol pryfed)
- Maent yn amsugno maethynnau o'u hamgylchedd
- Gall ffyngau atgenhedlu'n rhywiol ac yn ddi-ryw
- Maent yn atgenhedlu trwy sborau

# Ym mha fath o laswelltir maent yn tyfu?



Glaswelltir heb ei wella – ardaloedd yw'r rhain na chawsant eu haredig, eu hailhadu na'u gwrteithio erioed.



Glaswelltir ffrwythlon – trwy aredig, mae'r edafedd ffwngaidd yn cael eu torri, sy'n chwalu'r cysylltiadau rhyngddynt. Mae defnyddio gwrteithiau yn newid y cydbwysedd cemegol yn y pridd ac yn cael effaith negyddol ar ffyngau.

# Ffyngau a phridd

- Tybed a ydych wedi clywed am y we goed-eang?
- Gelwir y ffyngau hyn sy'n cysylltu â gwreiddiau planhigion yn ffyngau mycorhisol.
- Nid ffyngau ar gyfer coetiroedd a choed yn unig yw'r rhain – mae'r mwyafrif o blanhigion yn elwa o gysylltiadau ffwngaidd mewn ffordd debyg.
- Maent yn cyfrannu at iechyd da pridd a phlanhigion.
- Yn ei dro, mae hyn o fudd i'r we fwyd gyfan ac i ecosystemau.

# Pam y mae'r cynefinoedd hyn yn fregus? Pa fygythiadau sy'n eu hwynebu?

1. Aredig
2. Cemegion: plaladdwyr, chwynladdwyr, gwrteithiau
3. Datblygiadau trefol
4. Esgeulustod
5. Cynlluniau plannu coed

1. Yn dadelfennu'r rhwydwaith myseliol
2. Gall ladd ffyngau ac organebau yn y pridd
3. Colli cynefinoedd o ganlyniad i adeiladu
4. Diffyg pori neu dorri, sy'n arwain at ymlediad prysgwydd
5. Colli cynefinoedd glaswelltir heb eu gwella

# Sut y mae'r ffyngau'n cael eu diogelu a'u cofnodi?

- Rhestr Data Coch (gweler ar y dde)
- Cofnodi gan arbenigwyr
- Gwyddor dinasyddion
- Cronfeydd data cofnodion
- Rheoli cynefinoedd mewn modd cadarnhaol a gweithredu cadwraeth

Mae'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) yn gwneud asesiadau o ba mor dda y mae rhywogaethau'n goroesi, ac yn cynnal 'Rhestr Goch' o ran maint y bygythiad iddynt.

Yn 2025, roedd Rhestr Goch yr IUCN yn cynnwys cyfanswm o 1,300 o rywogaethau o ffyngau, ac mae o leiaf 411 ohonynt dan fygythiad difodiant. At ei gilydd, mae'r Rhestr Goch ar hyn o bryd yn cwmpasu 169,420 o rywogaethau, ac mae 47,187 ohonynt mewn perygl o ddiflannu.

*"Ffyngau yw arwyr tawel bywyd ar y Ddaear gan mai nhw'n sy'n ffurfio sylfaen ecosystemau iach – ac eto maent wedi cael eu hanwybyddu ers tro byd. Diolch i ymroddiad arbenigwyr a dinesydd-wyddonwyr, rydym wedi cymryd cam hanfodol ymlaen: mae dros 1,000 o 155,000 o rywogaethau ffwngaid hysbys y byd bellach wedi'u hasesu ar gyfer Rhestr Goch Rhywogaethau dan Fygythiad yr IUCN™, y ffynhonnell wybodaeth fwyaf cynhwysfawr ar y risg o ddifodiant. Bellach, mae'n bryd troi'r wybodaeth hon yn weithredu, a diogelu'r deyrnas ffwngaid ryfeddol hon y mae ei rhwydweithiau tanddaearol helaeth yn cynnal natur a bywyd fel y gwyddom ni amdanynt,"* meddai **Dr Grethel Aguilar, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr IUCN.**

# Ffyngau yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

- Mae Cymru'n gartref i rai o laswelltiroedd pwysicaf y byd ar gyfer ffyngau, gan gynnwys capiau cwyr lliwgar fel gemau.
- Ar Warchodfa Natur Genedlaethol Waun Las yn yr Ardd Fotaneg, mae'r glaswelltiroedd yn cael eu rheoli'n ofalus, a hynny gyda sylw penodol i ffyngau.
- Mae gan un o'n dolydd, Cae Capiâu Cwyr, o leiaf 10 o rywogaethau sydd mewn perygl o ddifodiant ar restr goch yr IUCN! Mae hyn yn gwneud ein Gwarchodfa Natur yn safle o bwys rhyngwladol.

# Nodweddion adnabod ffyngau ar gyfer capiau cwyr

Mae ffyngau capiau cwyr yn fadarch bach i ganolig eu maint sydd fel arfer yn tyfu mewn glaswelltiroedd ac ardaloedd mwsoglyd, neu weithiau yn llanerchau coetiroedd. Cânt eu galw'n "gapiâu cwyr" am fod eu capiau'n aml yn teimlo'n llyfn, yn gwyradd, neu fymryn yn seimllyd o'u cyffwrdd.

- Lliwiau – yn aml yn goch, melyn, gwyrdd neu oren llachar.
- Siâp y cap – amrywiaeth o siapiau.
- Cydfan y tagellau – yn aml yn 'llorestynol'.
- Ymyl y cap – yn aml yn donnog ac wedi'i holli.
- Lliw'r sborau – gwyn!
- Arogl – weithiau mae ganddynt arogleuon y gellir eu hadnabod oddi wrthynt.

**Nid capiau cwyr yw'r unig fath o ffyngau sy'n gwneud eu cartref yn y cynefin bregus hwn.**



ENTOLOMA


# Dewch i gwrdd â'r gang!



HYGROCYPE

Mae gan gapiâu cwyr a'u holl ffrindiau yn y glaswelltir lysenw  
– C.H.E.G.D.!

- C= *Clavarioid* – pastynau a chwrelau'r tylwyth teg
  - H= *Hygrocybe* – capiau cwyr
  - E= *Entoloma* – tagellau pinc
- G= *Geoglossum* – tafodau'r ddaear (*earth tongues*)
  - D= *Dermoloma* – capiau craciog



CLAVARIOID



DERMOLOMA



GEOGLOSSUM

# Ewch i hela yn ein dôt dan do!

- Mewn grwpiau, dewiswch 10 o rywogaethau o bocedi'r ddôt.
- 'Nawr defnyddiwch eich allwedd adnabod i ganfod pa ffyngau y daethoch o hyd iddynt.
- Pwy a ddaeth o hyd i dom buwch?! Edrychwch yn fanylach ar ba rywogaethau eraill o ffyngau sy'n hoffi tyfu ar dom!
- Adiwch y sgorau ar eich cardiau i weithio allan pa grŵp a oedd â'r darganfyddiadau glaswelltir mwyaf cyfoethog o ran rhywogaethau.
- Pwy oedd â'r rhywogaethau prinnaf?

# Gêm Dôl Dan Do Ar Waith

